



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 Ymlaen

Mawrth 2012



# MYNEGAI

	Tudalen
Rhagymadrodd	1
Pennod 1 – Gweledigaeth, Llywodraethu a Chysylltiadau	3
❖ Rhaglen Lywodraethu 2011-2016	3
❖ Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus	3
❖ Cynnal Cysylltiadau	5
Pennod 2 – Cynllunio a Pherfformiad	6
❖ Cynllunio Strategol	6
❖ Cynllunio ar gyfer Gwella	6
❖ Mesur Perfformiad	7
❖ Aseu, Rheoleiddio ac Arolygu	7
❖ Egwyddorion Sylfaenol ar gyfer Safonau Ymateb i Danau mewn Anheddau	8
❖ Rheoli Gwybodaeth	8
Pennod 3 – Cyflenwi Gwasanaethau	9
❖ Ymateb i Argyfwng	9
❖ Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd	10
❖ Atal a Diogelu	10
❖ Iechyd Meddwl a Chamdddefnyddio Sylweddau	13
❖ Rheoliadau Adeiladu a Systemau Chwistrellu	13
❖ Ymchwilio i Danau	14
❖ Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys	14
Pennod 4 – Cydnerthedd	15
❖ Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a Chynllunio Wrth Gefn	15
❖ Cydnerthedd Cenedlaethol	15
❖ Symudiadau, Gorchymyn a Rheoli	16
Pennod 5 – Adnoddau	17
❖ Arweiniad	17
❖ Datblygu'r Gweithlu	18
❖ Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	19
❖ Y Gymraeg	19
❖ System Diffoddwyr 'Ar Alwad' (Dyletswydd yn ôl y Galw)	19
❖ Rhannu Cyfleusterau	20

## RHAGYMDRODD

O dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ('Deddf 2004') rhaid i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub.

O ran y Fframwaith, mae'r adran yn darparu:

- (a) bod rhaid iddo osod blaenoriaethau ac amcanion i Awdurdodau Tân ac Achub (ATA) mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau;
- (b) y gall gynnwys canllawiau i ATA mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau;
- (c) y gall gynnwys unrhyw fater arall sy'n ymwneud ag ATA neu eu swyddogaethau y mae Gweinidogion Cymru'n ei ystyried yn briodol.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ATA yng Nghymru. Mae'n disgrifio'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan yr ATA ac yn gosod rôl yr ATA yng nghyd-destun y sector cyhoeddus ehangach. Mae'r Fframwaith hwn yn creu'r sylfaen ar gyfer datblygu a hyrwyddo atebion arloesol, gan gydnabod arbenigedd, rhannu adnoddau a gwella capasiti ar draws ATA a chyda'r sector cyhoeddus ehangach.

Yn y Fframwaith hwn mae'r term 'ATA' yn cyfeirio at y tri chorff statudol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, h.y. Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Y ddwy thema allweddol yn y ddogfen yw'r sylw a roddir i fesur canlyniadau ar gyfer dinasyddion, a sut mae cydweithredu yn cefnogi'r agenda hon. Mae llwyddo â llai, tra'n parhau i gynnal gwasanaethau priodol ar gyfer dinasyddion, wedi dod yn elfen amlwg sy'n llywio ein gwaith yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae'n bwysig fod pob gweithgaredd yn cael ei flaenoriaethu ar sail sicrhau canlyniadau gwirioneddol i ddinasyddion a chymunedau. Bydd cydweithredu – a hynny ar sail camau effeithlonrwydd/arbedion maint, yn ogystal â darparu gwasanaethau mwy cyflawn a di-dor – yn elfen allweddol yn y gwaith o gynnal a gwella gwasanaethau.

Mae'r Fframwaith wedi'i rannu'n Benodau fel a ganlyn:

**Pennod 1 – Gweledigaeth, Llywodraethu a Chysylltiadau** – sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer yr ATA, y cydberthnasau a'r modd y mae'r ATA yn meithrin cysylltiad â'i gilydd, â chyrrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd a'r cymunedau y mae'r ATA yn eu gwasanaethu.

**Pennod 2 – Cynllunio a Pherfformiad** – sy'n delio â gwella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau'r ATA a'r angen i gyflenwi gwasanaethau gwell a sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru gan ddefnyddio'r un adnoddau neu lai ohonynt.

**Pennod 3 – Cyflenwi Gwasanaethau** – Mae'r bennod hon yn disgrifio dyletswyddau craidd yr ATA i liniaru effaith peryglon sydd wedi'u pennu. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar sicrhau ymateb proffesiynol ac effeithiol i amryw o fathau o ddigwyddiadau a'r gwaith i atal digwyddiadau ymlaen llaw.

**Pennod 4 - Cydnerthedd** - sy'n disgrifio'r strwythur cyd-nerthu presennol ledled y DU a sut y dylai'r ATA weithio i ymateb i fygythiadau mawr.

**Pennod 5 - Adnoddau** – sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau ar gyfer cynllunio Arweiniad a'r gweithlu, datblygiad a hyfforddiant i sicrhau bod yr ATA yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i ddinasyddion gan ddiogelu eu staff eu hunain yr un pryd. Mae'n cydnabod pwysigrwydd materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth a'r Gymraeg. Mae hefyd yn trafod materion sy'n gysylltiedig â rhannu cyfleusterau.

### **Amserlenni**

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol hwn ar gyfer cyfnod amhenodol. Rhaid i Weinidogion Cymru ddal telerau'r Fframwaith o dan sylw (adran 21(3) o Ddeddf 2004) ac mae'n ofynnol iddynt baratoi adroddiad bob dwy flynedd ar y graddau y mae'r ATA yn gweithredu'n unol â'r Fframwaith (adran 25).

Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i gadw golwg ar delerau'r Fframwaith, yn ei ddiwygio yn ôl yr angen, ac yn ystyried o bryd i'w gilydd yr angen i lunio Fframwaith 'newydd'.

## **PENNOD 1 – GWELEDIGAETH, LLYWODRAETHU A CHYSYLLTIADAU**

### **Rhaglen Lywodraethu 2011-2016**

1.1 Mae'r Fframwaith Cenedlaethol hwn wedi'i ddatblygu gan gymryd Rhaglen Lywodraethu<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru i ystyriaeth. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n symud oddi wrth ddull o fesur llwyddiant ar sail mewnbynnau fel y swm o arian a wariwyd, neu nifer y polisiau a weithredwyd, at ddull sy'n mesur effaith llywodraeth ar fywydau pobl.

1.2 Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n disgrifio'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu sicrhau: pobl iach sy'n byw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy llewyrchus a blaengar; cymunedau mwy diogel a chydlynol, gyda llai o dlodi a mwy o gydraddoldeb; amgylchedd glân gyda defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol, a chymdeithas sydd â gwir ymdeimlad â'i diwylliant a'i hanes. Mae hyn wedi'i seilio ar egwyddor drefniadol graidd Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy, yng nghyd-destun lles, sy'n cynnwys gweithredu ynghylch cyfiawnder cymdeithasol, tlodi a chydaddoldeb a byw o fewn terfynau amgylcheddol.

1.3 Ar gyfer yr ATA, mae'r Rhaglen Lywodraethu'n egluro nod Llywodraeth Cymru o gyfrannu at wneud ein cymunedau'n fwy diogel drwy leihau nifer ac effaith tanau, yn ogystal â chydlynu argyfyngau eraill yn effeithiol. Amcan y blaenoriaethau, amcanion a chanllawiau sydd wedi'u nodi yn y Fframwaith Cenedlaethol hwn yw cyflawni'r ymrwymiad uchod ac, yn yr un modd â'r Rhaglen Lywodraethu, canolbwyntio ar ddull wedi'i seilio ar ganlyniadau. Bydd disgwyl i'r ATA defnyddio methodoleg Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau i ddangos effaith eu gwaith a sut y maent yn cyfeirio'u hanodau at y dinesydd. Byddant yn sicrhau canlyniadau drwy weithio'n rhagweithiol yn unigol ac mewn partneriaeth â'i gilydd ac ar draws asiantaethau perthnasol (gan gynnwys y trydydd sector) er mwyn:

- gostwng ymhellach y nifer o danau, marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i dân, a chost/effaith ganlyniadol tanau ar yr economi a chymdeithas, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;
- cyfrannu at ostwng ymhellach nifer y marwolaethau a'r anafiadau sy'n digwydd oherwydd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd;
- cael eu cydnabod gan bartneriaid (yn cynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau heddlu, y gwasanaeth iechyd a'r trydydd sector), yn ogystal â chan y gymuned, yn rhanddeiliaid allweddol o ran sicrhau gwelliant ehangach er budd newid amgylcheddol a chymdeithasol trwy eu gweithgareddau ym maes diogelwch cymunedol;

### **Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus**

1.4 Mae gan Lywodraeth Cymru agenda uchelgeisiol ar gyfer diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus, wedi'i seilio ar set o raglenni penodol ar gyfer gwella mewn meysydd cyflenwi ynghyd â dull trawsbynciol o wella effeithiolrwydd ac

---

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, Medi 2011:  
<http://wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/?lang=cy>

effeithlonrwydd yr holl wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gadeirydd Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus a fydd yn hyrwyddo gwelliant yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru. Y prif amcanion yw:

- sicrhau cydlyniant wrth weithredu'r agenda gyffredinol ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a hynny'n cynnwys goruchwyllo camau i weithredu Compact Simpson (cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol, sy'n pennu ymrwymiad ar y cyd i raglen ddiwygio) a datblygu cydlyniant â'r diwygiadau mewn meysydd eraill;
- noddi a mandadu camau gweithredu cenedlaethol i wella effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus;
- datblygu arweiniad rhanbarthol effeithiol er mwyn cydweithredu, gan adeiladu ar sail strwythurau arwain rhanbarthol presennol a phatrwm daearyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithredu rhanbarthol.

1.5 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r cynnydd y mae'r ATA wedi'i wneud o ran cydweithredu. Fodd bynnag, oherwydd bod yr hinsawdd economaidd yn newid, mae pwyslais o'r newydd ar yr agenda hon. Mae gan yr ATA rôl allweddol yn hyn o beth ac mae angen iddynt sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y dull gweithredu newydd hwn. Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu yn allweddol.

## **Blaenoriaethau**

1.6 Mae swyddogaethau craidd yr ATA wedi'u pennu yn Neddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ac yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau craidd hyn yn cael eu cyflawni, a'u bod yn gwireddu'r agenda uchod ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus, y blaenoriaethau i'r ATA yw:

- gweithredu drwy fanteisio ar gyfleoedd i weithio gyda'i gilydd a chyda gwasanaethau brys eraill, y sector cyhoeddus ehangach a'r trydydd sector, i sicrhau gwelliannau mesuradwy gan gynnwys mwy o effeithlonrwydd a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i fwy o raddau.
- pennu ac achub ar gyfleoedd ar gyfer rhannu gwasanaethau;
- adolygu eu gweithgarwch cydweithredu a'u partneriaethau presennol a newydd i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol, yn gwella'r cyflenwi ar wasanaethau ac yn rhoi mwy o werth am arian;
- sicrhau bod lefelau'r gwasanaeth yn bodloni anghenion lleol, gan ymdrechu i gael mwy o welliannau mewn cyfnod pan fydd cyllidebau o dan bwysau mwy byth. Mae hyn yn golygu rhoi pwyslais ar fwy o gynllunio drwy osod adnoddau yn erbyn blaenoriaethau i ddangos sut maent yn gwneud gwahaniaeth.
- pennu canlyniadau'n glir a mynd ati'n weithredol i reoli perfformiad;

- chwilio am ddulliau newydd ac arloesol o weithio er mwyn gwneud y mwyaf o'r doniau, arbenigedd ac adnoddau sydd gan yr ATA.

1.7 Wrth ymwneud â'r meysydd blaenoriaeth hyn bydd yr ATA yn ystyried y canllawiau manwl sydd yn y penodau canlynol o'r Fframwaith.

### **Cynnal Cysylltiadau**

1.8 Mae cyfathrebu ar draws ffiniau sefydliadol yn allweddol i feithrin llwyddiant drwy gydweithredu. Mae'n rhan hanfodol o bob strategaeth sefydliadol lwyddiannus ac yn elfen annatod yn y modd y mae'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn barnu pa mor dda y cyflenwir y gwasanaethau hynny. Mae'r ffordd y mae cyrff yn gweithio ac yn cyfathrebu â'i gilydd a chyda'n cymunedau'n bwysig o ran meithrin enw da a chryfhau cysylltiadau. Y berthynas bwysicaf sydd gan yr ATA yw'r un â'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Mae angen i'r ATA gynnal deialog reolaidd â'u cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn dal i ddeall ac ymateb i'w hanghenion. Wrth wneud hynny, dylent ystyried sut y maent yn meithrin cysylltiad yn benodol â'r dinasyddion hynny a gynhwysir o fewn y gyfres o nodweddion a warchodir, fel y'u pennwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

1.9 Ar lefel genedlaethol rydym yn cydnabod yr angen i gynnal deialog â'r ATA er mwyn sicrhau bod dyheadau Llywodraeth Cymru wedi'u hadlewyrchu yng ngweithgareddau'r ATA a bod polisi'n cael ei ddatblygu mewn modd sy'n adlewyrchu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a chyflenwyr gwasanaethau.

1.10 Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i gynnal cyfarfodydd chwarterol â Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr ATA a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a byddant yn cynnal deialog â chyrff cynrychiadol. Bydd swyddogion yn cynnal cysylltiad rheolaidd hefyd â swyddogion yr ATA drwy'r Fforwm Ymgynghorol Tân ac Achub.

1.11 Ar bob lefel mae amryw o fforymau amlasiantaethol i ddatblygu gweithgarwch, a rhannu gwybodaeth. Rydym yn cydnabod bod materion sy'n ymwneud â chapasiti yn gallu rhwystro ymdrechion i gynnal ymrwymadau i'r holl gyrff lleol sy'n gofyn am gynrychiolaeth gan ATA. Bydd angen felly i'r ATA bennu blaenoriaeth eu haelodaeth o bartneriaethau yng nghyd-destun cyflawni eu hamcanion strategol, gan ystyried yr un pryd yr arbenigedd a'r dylanwad y gallant eu cyfrannu i drafodaethau.



## **PENNOD 2 – CYNLLUNIO A PHERFFORMIAD**

**Canlyniad – Dylai'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub wella'n barhaus wrth i ddinasyddion a chymunedau ddal yr ATA yn atebol. Gan roi sylw i ddeddfwriaeth, cydnerthedd a fforddiadwyedd parhaus, dylai'r ATA gynllunio i gyflenwi gwasanaethau ar sail risg a sicrhau bod dealltwriaeth o'r ystod o wasanaethau a ddarperir.**

### **Cynllunio Strategol**

2.1 Dylai pob Awdurdod Tân ac Achub gyhoeddi cynllun strategol sy'n egluro nodau strategol tymor canolig a hir yr Awdurdod a'r cysylltiad rhwng y rhain a themâu a blaenoriaethau allweddol y Rhaglen Lywodraethu, y Fframwaith Cenedlaethol ac unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â gwasanaethau tân ac achub yn y cynlluniau integredig sengl y cyfeiriwyd atynt uchod. Bydd y cynllun strategol yn darparu cyfeiriad i'r Awdurdod Tân ac Achub, ei arweinwyr a'i bersonél ac yn galluogi'r cyhoedd i ddeall y canlyniadau y mae'r Awdurdod yn ceisio'u cyflawni a'r cwrs gweithredu ar gyfer eu cyflawni.

2.2 Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau y bydd pob awdurdod lleol erbyn Ebrill 2013 yn darparu Cynllun Integredig Sengl i gymryd lle'r cynlluniau a strategaethau statudol presennol a ganlyn – Strategaeth Gymunedol, Strategaethau Diogelwch Cymunedol (gostwng troseddu, camddefnyddio sylweddau ac aildroseddu), Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

2.3 Ni fu newid yn statws yr ATA fel partneriaid statudol mewn cynllunio cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd maint a rôl partneriaid lleol, gan gynnwys ATA, yn effeithio ar y graddau y byddant yn cymryd rhan yn y prosesau cynllunio cyfunol hyn. Bydd angen i ATA reoli a phennu blaenoriaeth eu gweithgarwch yn y maes hwn ac ystyried sut y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn eu cynlluniau strategol eu hunain.

2.4 Yn ystod y tair blynedd nesaf bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r ATA i adolygu a symleiddio strategaethau diogelwch tân cymunedol (fel y nodir ym mharagraff 3.11 o Bennod 3).

### **Cynllunio ar gyfer Gwella**

2.5 Fel 'awdurdodau gwella' mae gan ATA ddyletswyddau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ('Mesur 2009'). Un o egwyddorion sylfaenol Mesur 2009 yw'r newid ffocws oddi wrth enillion o ran allbwn ac effeithlonrwydd gwasanaethau ac effeithiolrwydd mewnol yr ATA, at gyswllt cryfach rhwng gwelliant a chanlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau. Dylai'r ATA ddefnyddio methodoleg Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau ym mhob agwedd ar eu gweithgarwch cynllunio, gan gynnwys cynllunio strategol ac ariannol a chynllunio ar gyfer gwella, a hefyd ar gyfer eu cynlluniau busnes/cyflenwi gwasanaethau sy'n deillio o hynny.

2.6 Rhaid i'r ATA ymgynghori ar eu hamcanion ar gyfer gwella a'u cyhoeddi, a chofnodi eu perfformiad yn eu herbyn. Wrth wneud hynny, dylai'r ATA fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau i feithrin cysylltiad â phobl o dan Reoliadau'r Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (2011/1064). O'r dechrau rhaid i'r ATA nodi'n glir sut maent yn bwriadu sicrhau gwelliant a sut y caiff hyn ei fesur. Yn ogystal â dangosyddion perfformiad, dylai'r ATA ddefnyddio ystod ehangach o dystiolaeth i asesu perfformiad eu gwasanaethau – fel y nodwyd yn adran 4 o'r canllawiau statudol a roddwyd i ATA<sup>2</sup>.

2.7 Dylai cynlluniau gwella'r ATA egluro'r berthynas rhwng yr amcanion gwella a'r gwaith o gyflawni eu cynlluniau strategol tymor canolog a hir.

2.8 Yn dilyn adolygiad yn 2010-11, mae cynllunio i leihau risg wedi'i lwyr integreiddio â threfniadau cynllunio ar gyfer gwella. Er nad yw trefniadau i gynhyrchu a chyhoeddi cynlluniau lleihau risg blynyddol yn ofynnol bellach, mae'n dal yn ofynnol i'r ATA ddefnyddio mecanweithiau i bennu risgiau a chynllunio ar sail yr angen i leihau risg i ddinasyddion a chymunedau. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau statudol ynghylch cynllunio ar gyfer gwella yn 2012 a bydd egwyddorion cynllunio i leihau risg wedi'u nodi'n glir yn y canllawiau hyn.

2.9 Mae Mesur 2009 hefyd yn creu pŵer cyffredinol i'r ATA gydweithredu i sicrhau gwelliannau (adrannau 9 a 10). Rhaid i'r ATA ystyried a fyddai cydweithredu o gymorth i gyflawni eu hamcanion ar gyfer gwella ac arfer eu pwerau cydweithredu lle mae hyn yn gymwys (adran 12).

## **Mesur Perfformiad**

2.10 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Dangosyddion Perfformiad (DP) yn 2011 sy'n cynnwys DP statudol, DP 'craidd' ategol, ac argymhellion ar gyfer dangosyddion perfformiad lleol i'r ATA<sup>3</sup>. Rhaid cyhoeddi adroddiad ar berfformiad yn erbyn y DP hyn (ac unrhyw ddiwygiadau a gyhoeddir drwy glychlythyr neu a gyflwynir drwy Orchymyn) fel rhan o drefniadau ehangach yr ATA i gofnodi eu perfformiad yn eu cynlluniau gwella blynyddol.

## **Asesu, Rheoleiddio ac Arolygu**

2.11 O dan Fesur 2009 (adrannau 17 i 19), bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad ac asesiad gwella blynyddol ar gyfer pob Awdurdod Tân ac Achub. Bydd hyn yn cynnwys ymysg pethau eraill (a) archwiliad ôl-weithredol ynghylch a yw'r Awdurdod Tân ac Achub wedi cydymffurfio â'i ddyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am wella a (b) asesiad ymlaen llaw ynghylch a yw'r Awdurdod yn debygol yn ystod y flwyddyn ariannol honno o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur (sef, yn bennaf, y ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus). Bydd yr asesiad ymlaen llaw hwn yn cynnwys ystyriaeth ynghylch a yw

---

<sup>2</sup> Cylchlythyr W-FRSC(10) 04 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 – Rhan 1 Canllawiau i Awdurdodau Tân ac Achub. Cyhoeddwyd 4 Mai 2011.

<http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/circulars/2010/wfrsc1004/?lang=cy>

<sup>3</sup> Cylchlythyr W-FRSC(11) 04 Dangosyddion Perfformiad Awdurdodau Tân ac Achub o 2011-12 ymlaen. Cyhoeddwyd 31 Mawrth 2011.

<http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/circulars/2011/wfrsc1104/?lang=cy>

Awdurdod Tân ac Achub wedi sicrhau ei welliannau arfaethedig gyda'r bwriad o dracio gwelliant dros amser.

2.12 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod proses Asesu Sicrwydd Gweithredol y Gwasanaethau a Gyflenwir yn elfen allweddol yn y broses ar gyfer gwella. Dylai'r ATA barhau i gynnal y broses asesu hon sydd wedi'i hwyluso gan Lywodraeth Cymru ond sy'n eiddo i'r ATA. Bob blwyddyn bydd y Cynghorydd Tân ac Achub yn gwneud cais am dderbyn copïau o adroddiadau asesu (o dan adrannau 26 a 28 Deddf Tân ac Achub 2004) oddi wrth yr ATA er mwyn hysbysu Gweinidogion Cymru am berfformiad gweithredol yr ATA a darparu manylion i Swyddfa Archwilio Cymru fel tystiolaeth ar gyfer ei hasesiad gwella blynyddol.

### **Egwyddorion Sylfaenol ar gyfer Safonau Ymateb i Danau mewn Anheddau**

2.13 Yn 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Egwyddorion Sylfaenol ar gyfer Safonau Ymateb i Danau mewn Anheddau. Mae'r rhain yn cymryd lle'r Safon Gwasanaeth ar gyfer Ymateb i Danau yn y Cartref i Gymru gyfan a gyhoeddwyd yn 2006. Mae'n ofynnol i'r ATA osod eu meini prawf lleol eu hunain ar gyfer ymateb ar sail yr egwyddorion sylfaenol. Dylai'r ATA egluro'r meini prawf mewn modd sy'n galluogi dinasyddion unigol i ddeall yr ymateb y maent yn debygol o'i gael pe byddai digwyddiad tân. Fel gofyniad lleiaf dylai'r meini prawf gael eu cyflwyno mewn dogfen sy'n hygyrch ac yn hawdd ei deall gan ddinasyddion. Dylai'r ATA gofnodi eu perfformiad yn erbyn y meini prawf hyn fel rhan o'u mecanweithiau cyffredinol ar gyfer cofnodi cynllunio ar gyfer gwella.

2.14 Adolygir yr Egwyddorion Sylfaenol o fewn 3 blynedd. Fel rhan o'r broses adolygu bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid ymestyn cwmpas yr Egwyddorion Sylfaenol i gynnwys digwyddiadau tân ac achub eraill.

### **Rheoli Gwybodaeth**

2.15 Dylai'r ATA gydweithredu â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wrth ddatblygu a chynnal systemau a phrotocolau ar gyfer casglu, dilysu, lledaenu, adolygu a diweddarau gwybodaeth.

2.16 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i barhau i ddatblygu fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru fel y bydd yn broses unigryw o'r safon uchaf ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol yng Nghymru. Dylai'r ATA ddefnyddio fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn sail i'w gwaith wrth ddatblygu cytundebau i rannu data, a hynny'n cynnwys adolygu protocolau presennol er mwyn cydymffurfio â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.

## **PENNOD 3 – CYFLENWI GWASANAETHAU**

**Canlyniad: Cymunedau mwy diogel i ddinasyddion trwy leihau nifer ac effaith tanau, yn ogystal â chydlynu argyfyngau eraill yn effeithiol, er mwyn sicrhau cymunedau mwy diogel i ddinasyddion. Dylai'r ATA gydweithio â rhanddeiliaid allweddol i wella'r canlyniadau o ran diogelwch tân.**

3.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio dyletswyddau craidd yr ATA i liniaru effaith peryglon a bennwyd. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio hefyd ar sicrhau ymateb proffesiynol ac effeithiol gan yr ATA i amryw o fathau o ddigwyddiadau a'r gwaith i atal digwyddiadau ymlaen llaw.

3.2 Wrth wneud pobl Cymru'n fwy diogel rhag peryglon tanau ac argyfyngau eraill, mae tri phrif faes i'w hystyried – Atal, Diogelu ac Ymateb. Mae'n amlwg mai drwy atal tanau ac argyfyngau eraill y ceir y budd mwyaf i'r cyhoedd. Pan fydd tanau ac argyfyngau yn digwydd, dylid lleihau eu heffaith lle bynnag y bo modd.

3.3 Mewn cyfnod heriol, un o flaenoriaethau allweddol y Fframwaith hwn yw darparu gwasanaeth gwell a mwy effeithiol trwy gyfeirio adnoddau at y meysydd lle mae'r angen mwyaf. Mae hefyd yn hollbwysig fod yr ATA yn cydweithredu i sicrhau buddion, yn ariannol ac yn weithredol, er mwyn sicrhau canlyniadau gwell a chyflenwi'r gwasanaethau rheng flaen gorau i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cymru a'r ATA yn cydnabod pa mor bwysig yw cynnal safon ac ansawdd gwasanaethau y mae'r ATA wedi'u chyflenwi er 2004 ac yn parhau i'w darparu.

### **Ymateb i Argyfwng**

3.4 Un o brif swyddogaethau statudol yr ATA yw darparu ymateb effeithiol ac effeithlon i argyfyngau i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, yn ogystal â bod yn rhan annatod o drefniadau ymateb rhanbarthol a chenedlaethol.

3.5 Ni ddylai'r adnoddau gweithredol sydd ar gael i'r ATA fod wedi'u cyfyngu gan ffiniau gweinyddol neu ddaearyddol ond dylid ystyried yr adnoddau hyn yn ased cenedlaethol. Bydd y dull hwn o weithredu'n hybu gallu a chydnerthedd gan leihau dyblygu. Rhaid ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cyd-ddarparu neu ddulliau gwell/amgen.

3.6 Dylai'r ATA barhau i ddatblygu arbenigedd gweithredol a'u gallu i ddelio â'r argyfyngau y gallent ddod ar eu traws. Dylid mabwysiadu technolegau, tactegau a gweithdrefnau arloesol er mwyn lleihau effaith digwyddiadau ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd naturiol.

3.7 Mae diogelwch diffoddwyr tân yn hollbwysig ac mae'r ATA o dan ddyletswydd i sicrhau eu bod yn darparu staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac sydd â'r cyfarpar a'r wybodaeth briodol i'w galluogi i ymateb yn ddiogel a llwyddiannus i ddigwyddiadau.

## **Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd**

3.8 Mae ymateb mewn argyfwng i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn rhan sylweddol bellach o lwyth gwaith yr Awdurdodau Tân ac Achub. Mae Adran 8 o Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn gosod dyletswydd statudol ar yr ATA i wneud darpariaeth ar gyfer achub pobl o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a delio a chanlyniadau gwrthdrawiadau o'r fath. Dylai'r ATA barhau i adolygu a gwella eu perfformiad, ar y cyd â'r heddlu a'r Gwasanaethau Ambiwlans. Dylai'r ATA barhau'n aelodau o Diogelwch Ffyrdd Cymru a pharhau i gynnal a datblygu'r cydweithio a'r rhyngweithio sydd rhyngddynt a'u partneriaid. Dylai'r holl fentrau diogelwch ar y ffyrdd a gynhelir gan yr ATA ystyried gwaith Diogelwch Ffyrdd Cymru fel y prif gorff sy'n arwain yn y maes hwn.

3.9 Mae'r Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd 2012-15, a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Tân ac Achub, yn nodi y dylai'r ATA barhau â'u hymrwymiad i'r agenda ataliol a'r gweithio amlasiantaethol yn y maes hwn. Dylai'r ATA ganolbwyntio'n arbennig ar grwpiau o ddefnyddwyr ffyrdd yn eu hardal sy'n agored i niwed.

## **Atal a Diogelu**

3.10 Mae gan yr ATA gyfrifoldeb i barhau i gydweithio â'r heddlu, awdurdodau lleol, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Partneriaethau Trosedd a Diogelwch, a rhanddeiliaid perthnasol allweddol eraill, wrth roi eu mentrau ar gyfer atal a diogelu ar waith i wneud Cymru'n lle diogel i'n dinasyddion fyw ynddo.

3.11 Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys creu partneriaethau a/neu gynlluniau i gau bylchau pwysig mewn darpariaeth ar lefel leol. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymadau sydd wedi'u nodi yn Strategaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer Plant a Phobl Ifanc<sup>4</sup>, y Strategaeth Tlodi Plant<sup>5</sup>, Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan<sup>6</sup>, y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru<sup>7</sup> a Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru<sup>8</sup> (sy'n darparu'r patrwm ar gyfer gweithgarwch amlasiantaethol i leihau tanau bwriadol).

3.12 Mae'n ofynnol i'r ATA ddangos eu hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gwneud darpariaeth statudol i Awdurdodau Cymreig bennu blaenoriaethau a chymau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae canllawiau pellach ar gael o'r enw 'Mynd i'r Afael â Thlodi Plant: Canllawiau a Rheoliadau i Awdurdodau Cymreig'. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid i Achub y Plant i gyflenwi ei wasanaeth 'Datrys Tlodi Plant Cymru', i helpu'r ATA a chyrrff cyhoeddus eraill i ddatblygu eu strategaethau tlodi plant.

3.13 Mae addysgu pobl ifanc er mwyn atal tanau damweiniol a bwriadol yn un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Tân ac Achub wrth iddynt fynd ati i greu cymunedau cynaliadwy. Yn 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru

<sup>4</sup> Strategaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer Plant a Phobl Ifanc - Rhagfyr 2010. Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

<sup>5</sup> Strategaeth Tlodi Plant - Chwefror 2011. Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

<sup>6</sup> Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan - Medi 2009. Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

<sup>7</sup> Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2008-2013. Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

<sup>8</sup> Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru - Awst 2007. Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Strategaeth yr ATA ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth Troseddwy Ifanc Cymru Gyfan. Mae'r ddwy strategaeth yn ceisio targedu ymyriadau at droseddwy ifanc a'r rheini sy'n ymylu ar droseddu sydd wedi amlygu ymddygiad cynnau tanau. Mae'r ddwy ddogfen hyn yn nodi blaenoriaethau ac ymyriadau penodol i ddelio â'r materion hyn. Yn ogystal â hynny dylai'r ATA fanteisio ar eu rôl yn y gymuned drwy chwarae rhan weithredol mewn gweithgareddau a rhaglenni sydd â'r amcan o hybu ymwybyddiaeth a hyder ymysg pobl ifanc, gan eu gwneud yn fwy cyflogadwy yn y tymor hwy.

3.14 Mae cyfanswm y tanau mewn anheddau y mae'r ATA wedi mynd atynt wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn ers datganoli'r Gwasanaeth Tân ac Achub, o 2,592 yn 2004-05 i 2,042 yn 2010-11. Mae'r cyflawniad hwn yn ganlyniad i amryw o ffactorau, fel adeiladau a deunyddiau mwy diogel, ymateb effeithiol a mwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o'u diogelwch tân eu hunain, trwy fentrau diogelwch tân cymunedol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae Arolwg Troseddu Prydain yn dangos tystiolaeth bod nifer y tanau gryn dipyn yn uwch na'r hyn a gofnodir, gan fod deiliaid tai'n delio â thanau bach eu hunain<sup>9</sup>. Oherwydd hyn mae'r angen am ymateb effeithiol, wedi'i ategu gan weithgarwch ataliol fel addysg a hybu ymwybyddiaeth, yn bwysicach byth.

3.15 Mae cyfanswm yr achosion o danau bwriadol a gofnodwyd yng Nghymru wedi gostwng o 20,000 yn 2004-05 i tua 14,000 yn 2010-11<sup>10</sup> ond mae rhannau o Gymru'n dal i ddioddef o lefelau o gynnu tanau a llosgi bwriadol sy'n uwch o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Mae dull cydweithredol wedi cyfrannu at y gostyngiad cyffredinol yn nifer y tanau bwriadol ond dylai'r ATA barhau i gydweithio â phartneriaid i leihau nifer yr achosion o losgi bwriadol a hybu ymwybyddiaeth o danau bwriadol a sicrhau bod y troseddwy yn cael eu rhoi o flaen eu gwell.

3.16 Mae Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru yn gosod yr agenda ar gyfer gweithio amlasiantaethol i fynd i'r afael â mater llosgi bwriadol. Mae Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru yn cysylltu â'r camau gweithredu penodol yn 'Rhaglen Lywodraethu 2011-2016' Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gwahaniaethau gwirioneddol ym mywydau pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymrwymadau clir i alluogi 'pobl iach i fyw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy llewyrchus a blaengar a chymunedau mwy diogel a chydlynol'.

3.17 Mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd economaidd yn awgrymu bod posibilrwydd y bydd nifer y tanau bwriadol yn cynyddu<sup>11</sup>. Mae hyn yn neilltuol o berthnasol i adeiladau sy'n wag neu heb eu meddiannu a llosgi bwriadol sy'n gysylltiedig â busnesau.

3.18 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gweithgarwch yn erbyn llosgi bwriadol dan arweiniad amlasiantaethol a bydd yn gofyn i'r Fforwm Ymgynghorol Tân ac Achub gydweithio â'r ATA a rhanddeiliaid eraill fel yr heddlu, Cymdeithas Yswirwyr Prydain ac awdurdodau lleol i ystyried y materion sy'n codi a sicrhau bod y posibilrwydd o gael digwyddiadau yn y dyfodol yn lleihau.

<sup>9</sup> 'Fires in the Home': Canfyddiadau Arolwg Troseddu Prydain 2002/03

<sup>10</sup> Mae'r holl ddata yn ymwneud ag achosion o danau wedi'u cymryd o Ystadegau Tân Cymru a thablau cysylltiedig Stats Cymru. Data dros dro yw rhai 2010/11.

<sup>11</sup> Cymdeithas Yswirwyr Prydain, 'Tackling fire – A call for action' 2009

3.19 Mae'r Fforwm Ymgynghorol Tân ac Achub yn gyfrifol am fonitro'r ymrwymadau ar gyflawni a'r blaenoriaethau sydd yn strategaeth bresennol Cymru ar Leihau Tanau Bwriadol. Ar ôl cynnal adolygiad o'r Strategaeth ac er mwyn adeiladu ar y gwaith da sy'n cael ei wneud eisoes, bydd strategaeth newydd, ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi yn 2012. Bydd y Fforwm Ymgynghorol Tân ac Achub yn parhau i fonitro'r ddogfen Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru 2 trwy Gyd-grŵp Cymru Gyfan ar Danau Bwriadol, er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu bodloni a'u bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Lle bo'n briodol, bydd y Fforwm yn gwneud argymhellion er mwyn ei diweddarau ar sail materion newydd neu rai a ddaw i'r amlwg.

3.20 Yn yr amgylchedd gwledig mae tanau gwyllt (glaswellt, grug a choedwigoedd) yn dal i achosi problem wirioneddol i'r ATA ac i'n cymunedau. Mae nifer y prif danau a thanau eilaidd yn yr ardaloedd hyn wedi codi o 5,516 yn 2009-10 i 6,967 yn 2010-11. Dylai'r ATA barhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru ac ar draws asiantaethau i wneud meddianwyr tir a phorwyr yn ymwybodol o'r cyfyngiadau a'r gofynion yn Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt (Cymru) 2008 a'r Rheolau Llosgi Grug a Glaswellt i Gymru 2008 sydd gyda nhw. Dylai'r ATA helpu hefyd i hysbysu Llywodraeth Cymru am sefyllfaoedd lle mae diffyg cydymffurfio â'r Rheoliadau. Hefyd dylai'r ATA gymryd rhan mewn gwaith partneriaeth i godi gwerth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ardaloedd gwledig a lled-wledig a gweithio gyda'r Heddluoedd a Gwasanaeth Eryl yn y Goron yng Nghymru i sicrhau bod pobl yn cael eu herlyn er mwyn lleihau nifer yr achosion o gynnu tanau'n fwriadol, lle mae hynny wedi'i ymsefydlu'n ddiwylliannol.

3.21 Yn achos adeiladau domestig dylai'r ATA dargedu'n well y dinasyddion yn ein cymunedau sy'n fwyaf agored i niwed a pherygl. Dylai hyn gynnwys cynnal asesiad risg ar bob achos a gaiff ei gyfeirio ar gyfer Gwiriad Diogelwch Tân yn y Cartref er mwyn pennu'r rheini sydd â'r angen mwyaf, gan ymweld â hwy o fewn cyfnod penodol. Dylai'r ATA ystyried unrhyw ddata sydd ganddynt ar y rhai a gwmpesir gan y nodweddion gwarchoddedig a bennir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010'). Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd pobl anabl sy'n perthyn i un o'r categorïau o nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf 2010 yn fwy tebygol o'i chael yn anodd gadael cartref sydd ar dân.

3.22 Dylai'r ATA feithrin cysylltiad â sectorau eraill gan gynnwys darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn rhoi sylw i'r rheini sy'n fwyaf agored i niwed a'r rheini sydd â salwch iechyd meddwl. Dylai'r ATA sicrhau ansawdd Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gyflawnir gan ein partneriaid er mwyn sicrhau bod yr ymyriadau priodol wedi'u darparu i leihau'r perygl o dân yng nghartrefi'r dinasyddion sy'n fwyaf agored i niwed a pherygl. Mae mwy na 375,000 o Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref wedi'u cyflawni rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2011. Bydd Llywodraeth Cymru yn dal i roi cymorth i'r ATA gyflenwi'r ymyriad hwn. Drwy Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref gellir pennu perygl o dân o safbwynt ffisegol ac ymddygiadol, ac mae'r ymyriadau'n amrywio o osod synwryddion mwg i ddarparu dillad gwely anhylosg a cheblau trydanol diogel.

## **Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau**

3.23 Mae dogfen Llywodraeth Cymru ‘*Gweithio Gyda’n Gilydd i Leihau Niwed*’ – Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008 – 2018<sup>12</sup> yn disgrifio sut mae pobl sy’n camddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau eraill yn achosi niwed sylweddol iddynt hwy eu hunain, eu teuluoedd, a’r cymunedau lle maent yn byw. Ei nod yw parhau i roi pwyslais ar hybu ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc, ond gan wneud mwy hefyd i addysgu a dylanwadu ar agweddau ym mhob rhan o’r boblogaeth, a hynny’n cynnwys ymateb i anghenion penodol pobl hŷn.

3.24 Mae diogelwch tân ymysg y rheini sydd â hanes o broblemau iechyd meddwl (gan gynnwys pryder, iselder, seicosis a phroblemau â’r cof) yn destun pryder difrifol. Mae gwaith sy’n ymwneud ag atal tanau domestig o fewn timau Lleihau Risgiau Cymunedol wedi dangos bod risg sylweddol o danau domestig yn gysylltiedig â phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

3.25 Dylai’r ATA barhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru ac ar draws asiantaethau i leihau achosion o dân ac i barhau i ddatblygu atebion arloesol i wella diogelwch dinasyddion sydd â phroblemau iechyd meddwl.

## **Rheoliadau Adeiladu a Systemau Chwistrellu**

3.26 Mae rhan i’w chwarae gan ATA o ran sicrhau bod mesurau diogelwch tân wedi’u cynnwys yn nyluniad cartrefi, swyddfeydd ac adeiladau eraill sy’n newydd neu wedi’u newid yn sylweddol. Mae hyn yn golygu cydweithio’n agos â Rheolwyr Adeiladu i sicrhau bod safonau Rheoliadau Adeiladu yn cael eu bodloni. Dylai’r ATA barhau i arfer eu dylanwad er mwyn sicrhau bod y gweithredu lleol ar Reoliadau Adeiladu yn dal i adlewyrchu’r safonau uchaf o ran diogelu rhag tân.

3.27 Mae Dogfen Gymeradwyedig B y Rheoliadau Adeiladu hefyd yn cynnwys cydnabyddiaeth i werth systemau chwistrellu o ran gwella lefelau diogelwch meddianwyr ac atal tanau rhag ymledu. Yn ogystal â hyn, mae systemau chwistrellu’n rhoi mwy o hyblygrwydd i ddylunwyr ac adeiladwyr, fel y gellir cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu mewn modd cost-effeithiol.

3.28 O dan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (OS 2009/3019) mae swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Adeiladu 1984, gan gynnwys y rheini ar gyfer gwneud rheoliadau adeiladu, wedi’u trosglwyddo i Weinidogion Cymru i’w rhoi mewn grym o 31 Rhagfyr 2011.

3.29 Ym Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 cyflwynwyd gofyniad, a fydd yn weithredol o ddyddiad sydd i’w bennu gan Weinidogion Cymru, i osod systemau chwistrellu mewn preswylfeydd newydd a rhai sydd wedi’u haddasu. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sut y gellid symud ymlaen â’r rheoliadau hynny.

3.30 Yn ogystal â hyn, mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy’n datblygu cynlluniau tai gofal ychwanegol i’r henoed wedi’u hannog i osod systemau chwistrellu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi’i wneud yn amod ar y Grant Gwella

---

<sup>12</sup> <http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/publications/strategy0818/?lang=cy>



Adeiladau Ysgolion fod rhaid gosod systemau chwistrellu yn yr holl ysgolion sy'n cael eu codi o'r newydd ac fel rhan o brosiectau adnewyddu sylweddol.

3.31 Mewn cysylltiad â'r rheoliadau adeiladu mae gan yr ATA bwerau i archwilio, drwy ddeddfwriaeth diogelwch tân, sy'n nodi cyfrifoldebau cyflogwyr ac eraill i ddarparu a chynnal amgylchedd diogel yn yr adeiladau y maent yn eu meddiannu. Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ('y Gorchymyn Diogelwch Tân') (OS 2005/1541) wedi bod mewn grym er Hydref 2006. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi set o Ganllawiau Diogelwch Tân i helpu'r ATA, fel awdurdodau gorfodi, ac i helpu pobl sy'n gyfrifol am safleoedd annomestig i gydymffurfio â'r Gorchymyn Diogelwch Tân. Mewn cysylltiad â safleoedd y Goron, Ymgynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd y Goron yng Nghymru.

3.32 Mae systemau synhwyro tân awtomatig (SSTA) yn fodd i roi rhybudd cynnar i bobl ac maent yn ffactor pwysig o ran lleihau'r perygl i fywyd ac eiddo. Wrth annog diogelu mwy o adeiladau drwy osod SSTA, mae'n bosibl y byddwn yn gweld mwy o achosion o'u cychwyn yn ddamweiniol. Mae adeiladau penodol lle mae problem o ran systemau sy'n camweithio a galwadau diangen yn gallu troi adnoddau gwerthfawr oddi wrth ddigwyddiadau gwirioneddol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd polisi ar waith gan bob Awdurdod Tân ac Achub i ddelio ag achosion lle mae SSTA wedi'u cychwyn yn ddamweiniol gan gymell gosod SSTA. Yn achos safleoedd annomestig, mater i bob Awdurdod Tân ac Achub yw penderfynu a fydd yn codi tâl am wasanaeth penodol ac ar yr amgylchiadau lle bydd yn gosod y tâl, ar yr amod y bydd wrth wneud hynny'n gweithredu'n unol â Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006 (OS 2006/1852) a Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (adran 18)<sup>13</sup>.

## **Ymchwilio i Danau**

3.33 Drwy benderfynu a deall achos tân caiff yr ATA wybodaeth hanfodol i ddatblygu gweithdrefnau diffodd tân mwy effeithiol, cadw diffoddwyr yn ddiogel a chyfrannu at arferion adeiladu. Mae hefyd yn ffordd werthfawr i helpu i gasglu cudd-wybodaeth a thystiolaeth i atal a darganfod llosgwyr a'u cael yn euog. Er mwyn cyflawni hyn dylai'r ATA gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil i danau a dylent barhau i ddatblygu trefniadau ag ATA eraill, yr heddlu ac asiantaethau eraill er mwyn integreiddio arferion a methodolegau ymchwil i danau fel y gellir sicrhau gweithio a chofnodi amlasiantaethol effeithiol ym maes ymchwil i danau.

## **Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys**

3.34 Dylai Llywodraeth Cymru, ATA, yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron barhau i adolygu gweithgareddau o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ymosodiadau ar Weithwyr Gwasanaethau Brys er mwyn sicrhau bod pob corff yn dal i gyflawni ei rwymedigaethau. Dylent hefyd weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod pobl yn cael eu herlyn lle gwelir bod angen hynny.

---

<sup>13</sup> Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011

## **PENNOD 4 – CYDNERTHEDD**

**Canlyniad – Lleihau'r effaith bosibl ar gymunedau yng Nghymru a gweddill y DU drwy fod yn barod ac wedi trefnu i ymateb yn effeithiol i heriau sy'n amharu, delio â hwy ac ymadfer ar eu hôl. Dylai'r ATA fod â'r capasiti a'r gallu i ddarparu ymateb effeithiol parhaol i risgiau cenedlaethol a mathau penodol o ddigwyddiad.<sup>14</sup>**

### **Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a Chynllunio Wrth Gefn**

4.1 Nod Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yw darparu fframwaith sengl ar gyfer amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig. Mae dwy brif ran i'r Ddeddf: trefniadau lleol ar gyfer amddiffyn sifil (Rhan 1) a phwerau argyfwng (Rhan 2).

4.2 Mae rôl statudol i Weinidogion Cymru wrth gyflwyno rheoliadau a chanllawiau sy'n gymwys i ymatebwyr categori 1 a 2 sy'n ymwneud yn llwyr neu'n rhannol â Chymru.

4.3 Fel ymatebwyr categori 1<sup>15</sup>, rhaid i'r ATA gymryd rhan yn y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yng Nghymru'n unol â Rheoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio Wrth Gefn) 2005. Mae'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn hwyluso cydweithredu rhwng Ymatebwyr Categori 1. Mae'r ATA yn ymatebwyr categori 1 ac felly mae'n ofynnol iddynt gydweithredu ag ymatebwyr categori 1 eraill a chydag ymatebwyr categori 2. Dylai'r ATA gydweithredu hefyd â chyrrff eraill sydd â rhan mewn ymateb yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Er mwyn gallu rhyngweithredu, dylai'r ATA gymryd rhan hefyd yn Fforwm Cymru Gydnerth.

### **Cydnerthedd Cenedlaethol**

4.4 Mae gan yr ATA ran bwysig i'w chwarae yn y seilwaith cydnerthedd cenedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru a'r ATA yn parhau i gydweithio'n agos â llywodraeth ganolog a gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn sicrhau bod holl elfennau allweddol cyfrifoldebau llywodraeth yn cael eu cyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru yn dal i gyfrannu'n ariannol at gynnal a rheoli gwasanaethau mewn cysylltiad ag asedau a chyfarpar Cydnerthedd Cenedlaethol.

4.5 Dylai'r ATA gydweithio'n agos ag ymatebwyr categori 1 eraill a chydag ymatebwyr categori 2 i sicrhau'r gallu i ryngweithredu a chael sicrwydd o gapasiti a gallu. Cydgysylltir hyn drwy'r Fframwaith Cydgysylltu a Chynghori Cenedlaethol a'r Bwrdd Cydnerthedd Cenedlaethol. Bydd angen i'r ATA ddarparu sicrwydd bod risgiau'n cael eu hasesu a bod cynlluniau ar waith i gwrdd â'r holl ofynion o ran

---

<sup>14</sup> Ymysg y mathau penodol o ddigwyddiadau y mae bygythiadau terfysgol, digwyddiadau cemegol, biolegol, radiologol a niwclear, damweiniau diwydiannol a domestig, gollwng cemegion ac adeiladau'n dymchwel, trychinebau naturiol, llifogydd a daeargrynfeydd.

<sup>15</sup> Mae gan Ymatebwyr Categori 1 rôl flaenllaw o ran ymateb i ddigwyddiad. Ceir manylion am y disgwyliadau ehangach sydd ar yr ATA fel Ymatebwyr Categori 1 yn <http://www.cabinetoffice.gov.uk/ukresilience>

cydnerthedd.<sup>16</sup> Ar gyfer materion lleol, dylid cael sicrwydd drwy strwythurau llywodraethu'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae'n ofynnol i systemau fod yn addas ac yn gydnerth a rhoi gwerth am arian.

4.6 Fodd bynnag, mewn cysylltiad â gallu o ran cydnerthedd ledled Cymru a Lloegr, bydd y gofynion asesu ar gyfer cyfarpar, hyfforddiant a gallu'n cael eu cyflawni a'u rheoli trwy'r Bwrdd Cydnerthedd Cenedlaethol.

### **Symudiadau, Gorchymyn a Rheoli**

4.7 Drwy weithredu'r prosiect Cydnerthedd Rheoli Tân Cymru Gyfan mae'r ATA wedi cael lefel ddiglyffelyb o allu i ryngweithredu a chydnerthedd. Dylai'r ATA barhau i ddatblygu'r trefniadau hyn a chwilio am gyfleoedd pellach i gydweithredu a sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd.

4.8 Mae gallu'r holl ymatebwyr categori 1 a 2 i ryngweithredu yn y dyfodol yn hanfodol i gynnal galluoedd ar gyfer cyfathrebu, symudiadau, gorchymyn a rheoli sy'n effeithiol ac yn gydnerth. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â'r ATA i roi cymorth i ddatblygu atebion ar gyfer cyfathrebu a symud data yn y dyfodol, er mwyn sicrhau gwelliant pellach yn y rhyngweithredu rhwng systemau gwahanol asiantaethau.

4.9 Dylai'r ATA gydweithredu i ddatblygu a chyflawni protocolau gorchymyn a rheoli effeithiol sy'n rheoli risg i ddiffoddwyr tân a gweithwyr eraill sy'n ymateb i argyfyngau mewn gweithgareddau gweithredol. Ni ddylai adnoddau symudol a sefydlog ar gyfer gorchymyn a rheoli fod wedi'u cyfyngu o fewn ffiniau sefydliadau neu ardaloedd gwasanaeth. Yn hytrach, dylid eu hintegreiddio fel y gellir eu defnyddio fel ased i Gymru gyfan.

---

<sup>16</sup> Rhaid i ATA drefnu cyfarpar ac adnoddau yn ôl yr angen er mwyn diwallu anghenion trefnu o dan y Protocol Cydgymorth Cenedlaethol a Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007; ac at ddibenion eraill sy'n ymwneud â tân ac achub

## **PENNOD 5 – ADNODDAU**

**Canlyniad – Bod gan yr Awdurdodau Tân ac Achub y bobl, y sgiliau a'r cyfarpar yn y lle iawn ac ar yr amser iawn i sicrhau eu bod yn gallu darparu'r gwasanaethau gorau a mwyaf diogel i'r cyhoedd gan sicrhau diogelwch eu staff.**

5.1 Mae bod â'r adnoddau ffisegol ac ariannol priodol yn y lle iawn ac ar yr amser iawn yn bwysig i bob corff. Mae hyn yn neilltuol o berthnasol i'r sector cyhoeddus yn y cyfnod hwn o ganolbwyntio cynyddol ar wella effeithlonrwydd a gwerth am arian. Yn fwy nag erioed, bydd angen i'r ATA ddefnyddio eu hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl. Ymhlith yr adnoddau hyn y mae cyfarpar, cyfleusterau, cyllid ac, yn bwysicaf oll, pobl.

5.2 Bydd angen i'r ATA fod yn flaengar wrth gynllunio a dylunio eu gwasanaethau ac, wrth wneud hynny, bydd angen iddynt ystyried y defnydd mwyaf effeithiol o staff yng nghyd-destun cyflenwi gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau cymorth. Dylai'r ATA ystyried ymhle y bydd cydweithredu'n sicrhau effeithlonrwydd, yn enwedig mewn cysylltiad â gwasanaethau corfforaethol, a gwasanaethau mwy effeithiol i ddinasyddion drwy gydweithio â gwasanaethau brys eraill, cyrff eraill y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Dylai'r ATA sicrhau eu bod yn rheoli perfformiad yng nghyd-destun datblygiadau presennol a newydd yn y gweithlu, yn cynnwys y rheini sy'n canolbwyntio ar gydweithredu, er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian a'r canlyniadau gofynnol.

5.3 Dylai ATA gydweithredu ynghylch datblygu a chyflawni prosesau hyfforddi, recriwtio a dyrchafu er mwyn darparu cysondeb ledled Cymru a sicrhau'r gallu i ryngweithredu'n effeithiol. Mae'n bwysig fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i wella'r cyfleoedd recriwtio a datblygu i grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol (gan gynnwys y rhai sydd o fewn y nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

### **Arweiniad**

5.4 Rhaid i arweinwyr yr ATA yng Nghymru feddu'r sgiliau angenrheidiol i ysbrydoli ac arwain y gweithlu i dderbyn newid. Mae hyn yn allweddol ar gyfer rheoli llwyddiannus ar yr agenda ar gyfer effeithlonrwydd, cydweithredu ac arloesi sydd wedi'i disgrifio yn y Fframwaith hwn. Dylid pennu anghenion am ddatblygu drwy ddull o weithredu sy'n strwythuredig ac wedi'i addasu i anghenion yr unigolyn. Dylai'r ATA gadw cydbwysedd rhwng anghenion datblygu ar gyfer sector penodol a chyfleoedd hyfforddi ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, gan gynnwys drwy'r Academi Arweinyddiaeth a gynhelir gan Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru.

5.5 Mae gan aelodau etholedig rôl bwysig o ran arweinyddiaeth a llywodraethu sy'n cynnwys dylanwadu a phennu cyfeiriad ar gyfer y dyfodol, a chraffu ar berfformiad. Mae ganddynt ran bwysig i'w chwarae hefyd wrth gynrychioli barn a buddiannau'r dinesydd. Oherwydd hyn mae arnynt angen ystod o wybodaeth a sgiliau er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol ac mae ganddynt eu hanghenion datblygu eu hunain.

5.6 Bydd angen i'r ATA sicrhau bod aelodau etholedig unigol yn cael hyfforddiant priodol a phenodol i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

### **Datblygu'r Gweithlu**

5.7 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y dull cydweithredol y mae'r ATA wedi'i fabwysiadu i ddatblygu Strategaeth Datblygu Sefydliadol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru sy'n cwmpasu dysgu a datblygiad. Bydd amryw o bolisiau a gweithdrefnau o dan y Strategaeth wedi'u cysylltu â Llwybrau Sgiliau Sefydliadol<sup>17</sup> sy'n disgrifio'r sgiliau a chymwyseddau angenrheidiol ar gyfer effeithiolrwydd o fewn rolau penodol. Mae'r ATA yn datblygu cynlluniau gweithredu lleol i hyrwyddo'r gweithredu ar y strategaeth hon o fewn eu sefydliadau.

5.8 Dylai'r ATA ystyried:

- Goblygiadau'r newidiadau mewn Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sydd wedi'u datblygu gan gynghorau sgiliau sector a'u cymeradwyo drwy'r Cyd-gyngor Cenedlaethol;
- Ffrydiau gwaith cenedlaethol sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ofynion am hyfforddiant a datblygiad (e.e. asesiadau ac adolygiadau risg generig) a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried a'u gweithredu fel y bo'n briodol;
- Perthnasedd ac argaeledd offer ar gyfer recriwtio, dyrchafu, datblygu a rheoli perfformiad. Dylid ystyried dysgu oddi wrth eraill, yn ogystal â datblygu pecynnau pwrpasol ar gyfer ATA Cymru.

5.9 Wrth i'r ATA ddarparu eu hymateb mewn argyfwng, mae'n hanfodol sicrhau diogelwch dinasyddion a diogelwch y diffoddwyr tân sy'n ymateb i argyfyngau. Mae ansawdd hyfforddiant risg critigol a'r dull o'i gyflenwi gan yr ATA yn allweddol er mwyn sicrhau bod diffoddwyr tân yn meddu'r sgiliau a phrofiad angenrheidiol i weithio'n ddiogel a darparu'r gwasanaeth gorau i gymunedau. Dylai'r ATA sicrhau eu bod yn adolygu ac yn monitro ansawdd eu hyfforddiant gweithredol ac yn rhoi trefniadau ar waith i'w gywiro os oes angen. I'r perwyl hwn mae Llywodraeth Cymru yn nodi cynigion presennol yr ATA i gyflwyno proses sicrhau ansawdd ar gyfer hyfforddiant risg critigol a byddai'n dymuno gweld yr ATA yn treialu ac yn gwerthuso'r broses a'i roi ar waith yn llawn ym mhob math o hyfforddiant risg critigol a gyflenwir gan bob un o'r ATA.

5.10 Dylai ATA ddatblygu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad lleol sy'n ystyried hyfforddiant risg critigol, cynnal cymhwysedd ac anafiadau diffoddwyr tân. Dylai'r ATA ymdrechu i sicrhau bod y ddarpariaeth o hyfforddiant yn gyson ledled Cymru a'i bod yn cyrraedd safon sy'n sicrhau cymhwysedd.

---

<sup>17</sup> Mae Llwybrau Sgiliau Sefydliadol yn offeryn a fydd yn galluogi gweithwyr i gael gwybod pa sgiliau a chymwyseddau y mae eu hangen i gyflawni rolau penodol. cymwysterau risg critigol/proffesiynol a phroffesiynol.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

5.11 Mae'n bwysig bod yr ATA yn ymdrechu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn sefydlu diwylliant cynhwysol i'w galluogi i ddiwallu anghenion eu cymunedau amrywiol. Mae sicrhau bod y gweithlu'n cael ei barchu a'i werthfawrogi a'i fod yn gallu cynrychioli'r cymunedau y mae ATA yn eu gwasanaethu'n hanfodol er mwyn darparu ymateb effeithiol ar gyfer atal, diogelu a delio ag argyfyngau.

5.12 Wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus a restrir yn Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010') roi sylw dyledus i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn Neddf 2010. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio, hyrwyddo cyfle cyfartal a hybu cydberthnasau da. Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Eu hamcan yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus rhestredig yng Nghymru yn cyflawni'n well o ran y dyletswyddau cydraddoldeb penodol. Mae'r dyletswyddau yn berthnasol i ATA hefyd. Mae'r dyletswyddau penodol yn cynnwys gofynion i osod amcanion cydraddoldeb; cynnwys, ymgysylltu ac ymgynghori â phobl sy'n cael eu heffeithio gan eu penderfyniadau; casglu gwybodaeth ragnodedig; cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a gwneud cynllun cydraddoldeb strategol.

5.13 Dylai'r ATA gofnodi cynnydd yn lleol ar Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub (sydd i'w chyhoeddi yn 2012) fel rhan o'u trefniadau adrodd blynyddol ar eu hamcanion cydraddoldeb.

5.14 Dylai'r ATA ddefnyddio Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i asesu eu perfformiad mewn blynyddoedd i ddod.

## Y Gymraeg

5.15 Mae angen i'r ATA estyn allan at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a gallu cyflenwi gwasanaethau'n ddwyieithog yn unol â'u cynlluniau iaith Gymraeg statudol. Er mwyn cyflawni hyn mae'n bwysig bod sgiliau dwyieithog wedi'u hintegreiddio â gweithdrefnau cynllunio'r gweithlu, a bod camau'n cael eu cymryd ymlaen llaw i gau unrhyw fylchau a allai fod rhwng lefelau presennol a lefelau gofynnol y sgiliau dwyieithog. Bydd safonau yn cymryd lle cynlluniau maes o law yn dilyn cyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## System Diffoddwyr 'Ar Alwad' (Dyletswydd yn ôl Galw)<sup>18</sup>

5.15 Mae oddeutu 2,000 o ddiffoddwyr tân ar y System Dyletswydd yn ôl Galw (y cyfeirir atynt yn aml erbyn hyn fel diffoddwyr 'Ar Alwad') yn darparu cyfran helaeth o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub ledled Cymru. Mae Diffoddwyr Ar Alwad yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn at sicrhau gallu gweithredol y gwasanaeth yng

---

<sup>18</sup> Mabwysiadwyd y term 'Ar Alwad' gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân ar ddiwedd 2010 yn lle'r term 'System ar Ddyletswydd yn ôl Galw', ac mae'n adlewyrchiad gwell o'r system shifftiau a ddefnyddir.

Nghymru. Gweithwyr rhan-amser ydynt sydd wedi'u hyfforddi i ddelio â phopeth o ddiffodd adeiladau sydd ar dân i roi cymorth cyntaf i bobl.

5.16 Mae'r ATA yn wynebu'r her o gyflenwi gwasanaethau cydnerth, gwell i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu gan ddefnyddio llai o adnoddau ac felly bydd rôl y diffoddwyr 'Ar Alwad' yn dod yn fwyfwy hanfodol yng nghyd-destun yr heriau hyn. Gyda'r cynnydd yn nifer y tanau mawr ar dir gwyllt a'r rheidrwydd i gynllunio ar gyfer trychinebau estynedig sydd wedi'u hachosi gan natur a phobl, mae'r cysyniad o ddiffoddwyr tân 'Ar Alwad' yn cynnig atebion posibl i ddelio â'r heriau cynyddol hyn.

5.17 Dylai'r ATA fonitro pa mor hyfyw yw system y diffoddwyr 'Ar Alwad', a dylent allu ymateb i'r heriau o ran recriwtio a chadw staff, a chymhwysedd y staff hynny. Er mwyn gallu cynnal system y diffoddwyr 'Ar Alwad' yn y dyfodol, rhaid i'r ATA chwilio am atebion arloesol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ymateb i argyfwng a diogelwch cymunedol mewn cymunedau gwledig a chymunedau anghysbell yng Nghymru. Wrth ystyried atebion arloesol o'r fath bydd angen ystyried yr hyn y mae'r cymunedau'n ei ddisgwyl oddi wrth yr ATA. Ni ddylai'r atebion hynny gael eu cyflawni ar wahân, felly.

### **Rhannu cyfleusterau**

5.18 Mae gorsafoedd tân yn gyfleusterau cyhoeddus gwerthfawr, sydd yng nghanol ein cymunedau ac wedi'u lleoli'n aml yn rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig. Oherwydd hyn, mae iddynt werth mwy o lawer na bod yn gartref i gerbydau a diffoddwyr yr ATA yn unig. Maent yn cynnig lle a llety gwerthfawr i wasanaethau brys eraill ac amryw o weithgareddau trydydd sector ac allgymorth cymunedol. Mae'r ATA eisoes yn cydnabod y rôl gymunedol werthfawr sydd ganddynt ac mae nifer o orsafoedd fel y Rhyl, Llanelli a Threlái eisoes wedi neilltuo manau i'w defnyddio gan y gymuned leol. Fodd bynnag, er ein bod yn dymuno gweld y gwaith da hwn yn parhau ac yn cael ei ymestyn i orsafoedd tân eraill, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd mwy gwledig, rydym hefyd yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r ystâd yn dyddio i'r 1950/60au a bod y gost o'i haddasu at ddefnydd modern yn gallu bod yn ormodol. Serch hynny, wrth wneud gwaith adnewyddu helaeth ar orsafoedd presennol, neu wrth gynllunio gorsafoedd newydd, dylai'r ATA ystyried anghenion ehangach y gymuned leol, ar sail asesiad lleol, a datblygu cyfleusterau fel eu bod yn orsafoedd tân gwirioneddol gymunedol, sy'n diwallu amryw o anghenion lleol. Dylent hefyd feithrin cysylltiad â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus i sicrhau'r defnydd gorau o'r ystad.